# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Mehefin 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 283 (v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 5 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar ddeiseb P-06-1476: Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol

(60 munud)

**NDM8910** Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1476 Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol.' a gasglodd 11,473 o lofnodion.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(60 munud)

**NDM8911** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 8 Mehefin 2025 yn nodi deng mlynedd ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi dan fesurau arbennig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddechrau ymchwiliad cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud hyd yma o dan y gyfundrefn mesurau arbennig a'r gwaith sydd ar ôl o hyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei wneud, fel y nodwyd yn yr adroddiad cynnydd dwy flynedd a gyhoeddwyd fis Mawrth.

Mesurau arbennig (lefel 5) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: adroddiad cynnydd blwyddyn 2

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn canmol gwaith caled staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dan amodau heriol tu hwnt.

Yn gresynu:

a) bod y gwaith caled hwn wedi'i danseilio gan gamweithredu cronig hanesyddol ar lefel y bwrdd dros nifer o flynyddoedd, yn ogystal â'r methiannau a'r diffyg tryloywder yn ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at y fframwaith mesurau arbennig - gan gynnwys tynnu'r bwrdd iechyd allan o fesurau arbennig yn gynamserol yn 2020 er hwylustod gwleidyddol; a

b) bod trigolion gogledd Cymru yn wynebu amseroedd aros anghymesur am driniaeth o gymharu â gweddill Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion adroddiad Plaid Cymru 'System Iechyd Cymru: Atebolrwydd, Perfformiad a Diwylliant' yn llawn, i wella mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd yn Betsi Cadwaladr - gan gynnwys diwygio'r fframwaith mesurau arbennig a sefydlu rheolau ymgysylltu safonol ar gyfer uwch arweinwyr i sicrhau na chaiff trefniadau atebolrwydd eu tanseilio na'u gweithio o amgylch.

Adroddiad Plaid Cymru 'System Iechyd Cymru: Atebolrwydd, Perfformiad a Diwylliant'

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8912** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Casnewydd - dinas ar i fyny yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8909** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cymru – ynni batri i bawb?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2025